**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Adroddiad ar Oblygiadau Ariannol y Mesur Arfaethedig ynghylch Tai (Cymru)

Ionawr 2011

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8026
Ffacs: 029 2089 8021
e-bost: Finance.Comm@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Adroddiad ar Oblygiadau Ariannol y Mesur Arfaethedig ynghylch Tai (Cymru)

Ionawr 2011

## Y Pwyllgor Cyllid

Cylch gwaith y Pwyllgor Cyllid yw sicrhau y craffir yn briodol ar gyllideb a gwariant Llywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Ombwdsmon, y Comisiynydd Plant, y Comisiynydd Pobl Hŷn a'r gwahanol Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Chyrff GIG.

Yn gyffredinol, mae gan y Pwyllgor dair prif swyddogaeth:

- ystyried cynigion ar gyfer cyllideb y Cynulliad a chyflwyno adroddiad arnynt;
- ystyried yr wybodaeth ariannol a gyflwynir gyda Mesurau Cynulliad, a lle bo'n briodol, cyflwyno adroddiad arni;
- ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant y Llywodraeth neu wariant o Gronfa Gyfunol Cymru, neu sy'n effeithio ar y gwariant hwnnw.

## Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2007. Manylir ar ei bwerau yn Rheol Sefydlog 14 Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r rhain ar gael yn: **www.cynulliadcymru.org**.

## Aelodau'r Pwyllgor



**Angela Burns (Cadeirydd)**
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Plaid Geidwadol Cymru



**Lorraine Barrett**
De Caerdydd a Phenarth
Llafur



**Peter Black**
Gorllewin De Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**Andrew Davies**
Gorllewin Abertawe
Llafur



**Chris Franks**
Canol De Cymru
Plaid Cymru



**Brian Gibbbons**
Aberafan
Llafur



**Ann Jones**
Dyffryn Clwyd
Llafur



**Nick Ramsay**
Sir Fynwy
Plaid Geidwadol Cymru



**Janet Ryder**
Gogledd Cymru
Plaid Cymru

Bu'r Aelod a ganlyn yn mynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cyllid fel eilydd yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn:



**Alun Davies**
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Llafur

**Adroddiad ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Tai (Cymru)**

<u>Dyfyniadau o'r Rheolau Sefydlog:</u>

*14.2 Caiff y Pwyllgor [Cyllid] hefyd ystyried y canlynol ac, os yw'n gweld yn dda, gyflwyno adroddiadau arnynt:*

*i. gwybodaeth ariannol yn y memoranda esboniadaol sy'n cyd-fynd â Mesurau Cynulliad arfaethedig;*

*…………………………………………………………..*

*23.18 Ar yr un pryd ag y bydd [yr Aelod cyfrifol] yn cyflwyno Mesur arfaethedig, rhaid hefyd gosod Memorandwm Esboniadol y mae'n rhaid iddo:*

*vi) nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:*

*(a) unrhyw gostau gweinyddol, costau cydymffurfio a chostau eraill y byddai darpariaethau'r Mesur arfaethedig yn arwain atynt;*

*(b) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r costau hynny godi; ac*

*(c) lle y byddai'r costau'n syrthio;*

## Cyflwyniad

1. Bu'r Pwyllgor Cyllid yn ystyried y Mesur Arfaethedig ynghylch Tai (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol yn ei gyfarfod ar 6 Rhagfyr 2010 a chlywodd dystiolaeth gan

- Jocelyn Davies AC, y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio
- Ceri Breeze, Llywodraeth Cynulliad Cymru

2. Bu'r Pwyllgor Cyllid hefyd yn ystyried y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 mewn ymateb i'w ymarfer ymgynghori ar-lein a oedd wedi cynnwys cwestiwn penodol mewn perthynas ag ystyriaethau ariannol y Mesur arfaethedig: *Beth yw goblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig i sefydliadau, os oes rhai o gwbl? Wrth ateb y cwestiwn hwn, efallai yr hoffech ystyried Adran 2 y Memorandwm Esboniadol (yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol), sy'n amcangyfrif costau a buddion gweithredu'r Mesur arfaethedig.*

3. Yn dilyn y cyfarfod ar 6 Rhagfyr, ysgrifennodd y Pwyllgor Cyllid at y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio i ofyn am wybodaeth bellach. Atebodd y Dirprwy Weinidog ar 15 Rhagfyr 2010.

## Cefndir

4. Dywed y Memorandwm Esboniadol[1] bod y Mesur arfaethedig yn gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn bosibl i ddarparu tai fforddiadwy mewn modd mwy effeithiol yng Nghymru. Yn benodol, bydd y Mesur arfaethedig:

- yn mynd i'r afael â'r ymrwymiad a wnaed yn nogfen clymblaid *Cymru'n Un* i alluogi Gweinidogion Cymru, ar sail cais oddi wrth Awdurdod Tai Lleol, i atal dros dro yr Hawl i Brynu, yr Hawl i Brynu a Gadwyd a'r Hawl i Gaffael a feddir gan denantiaid darparydd tai cymdeithasol yng Nghymru, mewn ardaloedd sydd o dan bwysau oherwydd prinder tai; ac
- yn rhoi rhagor o bwerau rheoleiddio a phwerau ymyrraeth i Weinidogion parthed y ddarpariaeth o dai gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

## Y costau sydd ynghlwm â'r Mesur arfaethedig

### *Rhan 1: Atal yr Hawl i Brynu a hawliau perthnasol*

5. Mae Rhan 1 y Mesur arfaethedig yn ymdrin ag atal yr Hawl i Brynu a hawliau perthnasol. Dywed y Memorandwm Esboniadol[2] mai un o'r anawsterau sy'n gysylltiedig ag amcangyfrif effaith y tri opsiwn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yw'r ansicrwydd ynghylch nifer yr eiddo a werthir drwy'r Hawl i Brynu/Hawl i Gaffael. Yn ogystal, mae ansicrwydd yn gysylltiedig ag atal yr Hawl i Brynu/Hawl i Gaffael mewn ardaloedd lle y mae galw uchel am dai. Gwneir y penderfyniad i atal yr Hawl i Brynu/Hawl i Gaffael ar sail asesiad o gyflwr y farchnad dai leol a'r galw am dai cymdeithasol. Dywed y Memorandwm Esboniadol[3] nad yw'n bosibl nodi'r union gostau a'r manteision sydd ynghlwm â phob opsiwn.

---

[1] Mesur Arfaethedig ynghylch Tai (Cymru), Memorandwm Esboniadol, para 1.1 – 1.3
[2] Mesur Arfaethadig ynghylch Tai (Cymru), Memorandwm Esboniadol, para 7.6
[3] Mesur Arfaethadig ynghylch Tai (Cymru), Memorandwm Esboniadol, para 7.7

6. Mae’r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys y wybodaeth a ganlyn am gostau:

- Bydd awdurdodau tai lleol yn tynnu costau gweinyddol wrth baratoi a chyflwyno cais i atal yr Hawl i Brynu. **Ni ddarperir amcangyfrif o’r costau hyn,** gan y bydd “y gost weinyddol yn dibynnu ar faint pob cais unigol a’r math o gais a wneir”. Fodd bynnag, dywed y Memorandwm Esboniadol y byddai atal yr Hawl i Brynu yn “arwain at arbedion i’r Awdurdod Tai Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig o ran y costau o weinyddu’r cynlluniau yn yr ardal(oedd) a dylai hynny wrthbwyso’r costau gweinyddol o wneud cais”. **Ni ddarperir amcangyfrif o’r arbedion hyn**.
- Bydd cyflwyno ceisiadau gan Awdurdodau Tai Lleol am gyfarwyddyd i atal yr Hawl i Brynu yn arwain at waith gweinyddol ychwanegol i Gyfarwyddiaeth Dai Llywodraeth Cynulliad Cymru. Amcangyfrifir mai **£5,000** fyddai’r gost o weinyddu pob cais, a chyllideb bresennol y Gyfarwyddiaeth Dai fyddai’n talu’r costau hyn. **Ni ddarperir dadansoddiad llawn o’r ffigur hwn, na manylion ynghylch pa gyllideb fyddai’n talu’r costau hyn. Yn ogystal, ni ddarperir amcangyfrif o’r nifer tebygol o geisiadau a gaiff eu cyflwyno gan Awdurdodau Tai Lleol.**
- Byddai atal yr Hawl i Brynu yn golygu na fyddai Awdurdodau Tai Leol yn elwa ar incwm o werthu, ond byddent yn parhau i gronni incwm o rentu. Ni ddarperir amcangyfrif o’r effaith ariannol debygol ar ddarparwyr tai cymdeithasol a fyddai’n deillio o’r ddarpariaeth hon.
- Gallai atal yr Hawl i Brynu arwain hefyd at bwysau ariannol ar Awdurdodau Tai Lleol o ran bodloni a chynnal Safon Ansawdd Tai Cymru (“SATC”) yn y tymor byr. Fodd bynnag, disgwylir i ddarparwyr tai cymdeithasol gael incwm net o ganlyniad i gadw eu stoc dai. Ni ddarperir amcangyfrif o effaith ariannol y ddarpariaeth hon ar Awdurdodau Tai Lleol.

*Rhan 2: Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig*

7. Byddai Rhan 2 y Mesur arfaethedig yn cynyddu pwerau rheoleiddio a phwerau ymyrraeth Gweinidogion Cymru fel rhan o’r fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Yn ôl y

Memorandwm Esboniadol,[4] ni fyddai hyn yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, ond gallai cynyddu rôl reoleiddiol Gweinidogion Cymru arwain at gynnydd mewn costau rheoleiddio. Mewn llythyr dilynol at y Pwyllgor Cyllid, dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai'r Mesur arfaethedig hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod cosbau sifil o hyd at £5,000. O ran tramgwyddau troseddol, mae Deddf Tai 1996 eisoes yn darparu ar gyfer tramgwyddau a allai fod yn destun erlyniad. Mae'r dirwyon yn amrywio, hyd at £5,000.

8. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif:

- O ran costau Llywodraeth Cymru, byddai'r gost o ddatblygu a gweithredu'r fframwaith rheoleiddio newydd wedi'i chynnwys yng nghostau rhedeg Uned Rheoleiddio'r Gyfarwyddiaeth Dai. Mae gan Uned Rheoleiddio'r Gyfarwyddiaeth gyllideb o £695,000 ar gyfer 2010-2011. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys costau staffio o £514,000, ar gyfer 9.5 o swyddi cyfwerth ag amser llawn. Mae'r £181,000 sy'n weddill yn ffurfio cyllideb y rhaglen, gan gynnwys costau sefydlu'r fframwaith newydd a'r costau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r pwerau a ragnodir yn y Mesur arfaethedig. Ni ddarperir amcangyfrif o'r costau a delir o gyllideb Uned Rheoleiddio'r Gyfarwyddiaeth Dai yn ystod y blynyddoedd ariannol dilynol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol gan na fydd y pwerau sydd yn y Mesur ar gael tan y flwyddyn ariannol 2011-2012.
- Y byddai'r gost o gynnal archwiliad o dan adrannau 43 i 48 o'r Mesur arfaethedig rhwng £5,000 a £7,000. Ni ddarperir dadansoddiad llawn o'r gost hon, ac ni ddarperir amcangyfrif o'r nifer tebygol o archwiliadau a gynhelir yn flynyddol.
- Y byddai'r gost o benodi rheolwr olynol ar gyfer Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, yn dilyn penodi rheolwr dros dro, o dan adran 83 o'r Mesur arfaethedig, o gwmpas £10,000. Byddai'r gost lawn o gyflogi'r rheolwr dros dro yn gyfrifoldeb i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig. Ni ddarperir dadansoddiad llawn o'r gost hon, ac ni ddarperir amcangyfrif o ba mor aml y byddai gofyn talu'r gost. Yn ogystal, nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi pa adran o Lywodraeth Cymru fyddai'n gyfrifol am dalu'r gost o sicrhau rheolwr olynol.

[4] Mesur Arfaethedig ynghylch Tai (Cymru), Memorandwm Esboniadol, para 10.3

*Costau posibl nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Memorandwm Esboniadol*

9. Ni ddarperir amcangyfrif yn y Memorandwm Esboniadol o'r costau sydd ynghlwm â'r darpariaethau a ganlyn o fewn y Mesur arfaethedig.

- Yn ôl y Memorandwm Esboniadol,[5] "Ni fyddai'r darpariaethau yn y Mesur yn golygu y byddai unrhyw gostau ychwanegol ar Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig oni bai fod Gweinidogion Cymru yn dewis defnyddio'r ddarpariaeth ymyrryd a gorfodi". Ni ddarperir unrhyw amcangyfrif ychwanegol o'r costau i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig os bydd Gweinidogion Cymru yn defnyddio'r ddarpariaeth ymyrryd a gorfodi.
- Mae'r pwerau ymyrraeth ychwanegol a roddir i Weinidogion Cymru o dan Ran 2 o'r Mesur arfaethedig yn cynnwys y gallu i dderbyn ymgymeriad gwirfoddol (adran 41), y pŵer i roi hysbysiad gorfodi (adran 52), y pŵer i roi cosb ariannol (adrannau 57 i 63), y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig dalu iawndal i unigolion neu grwpiau penodol (adrannau 64 i 71), y gallu i'w gwneud yn ofynnol i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig roi ei swyddogaethau rheoli allan i dendr (adrannau 72 i 73), y gallu i'w gwneud yn ofynnol i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig drosglwyddo'i swyddogaethau rheoli i unigolyn penodedig (adrannau 74 a 75), y gallu naill ai i benodi unigolyn yn rheolwr dros y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, neu i osod gofyniad ar yr LLC i benodi'r cyfryw reolwr (adrannau 76 a 77), y gallu i beri cyfuno un Landlord Cymdeithasol Cofrestredig â Landlord Cymdeithasol Cofrestredig arall (adran 78), a'r gallu i gyfyngu ar drafodion Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn ystod ymchwiliad (adrannau 79 a 80). Ni ddarperir amcangyfrif manwl yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r effaith ariannol ar Lywodraeth Cymru sy'n deillio o'r darpariaethau uchod. Ni fydd un o'r pwerau hyn yn ddarostyngedig i reolaeth weithdrefnol y Cynulliad.

[5] Mesur Arfaethedig ynghylch Tai (Cymru), Memorandwm Esboniadol, para 10.27

**Y drafodaeth**

10. Cafodd y Pwyllgor Cyllid gryn anhawster wrth geisio cyflawni asesiad gwybodus o effaith ariannol y Mesur arfaethedig hwn yn sgil y diffyg gwybodaeth ariannol a ddarperir yn y Memorandwm Esboniadol.

11. Wrth roi tystiolaeth lafar[6] gerbron y Pwyllgor Cyllid, dywedodd y Dirprwy Weinidog bod y gyfundrefn rheoleiddio'n bodoli eisoes, a'i bod yn peri costau. Nid oedd y Dirprwy Weinidog yn rhagweld y byddai'r Mesur arfaethedig yn arwain at gostau ychwanegol, ac ychwanegodd bod y Mesur arfaethedig wedi deillio o gydweithio.

12. Mewn perthynas â'r Hawl i Brynu, dywedodd y Dirprwy Weinidog[7] ei bod yn rhagweld na fyddai unrhyw gostau ychwanegol ar ben y gost o redeg y gyfarwyddiaeth fel y mae. Yn benodol, dywedodd na fyddai unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

13. Gofynnodd Aelodau gwestiynau[8] am yr effaith y byddai'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn ei chael ar y farchnad dai. Roedd y Dirprwy Weinidog o'r farn[9] na fyddai'n cael effaith radical nac effaith sylweddol. Gofynnodd Aelodau gwestiynau[10] am y cyfeiriadau a wneir yn y Memorandwm Esboniadol at y ffaith y gallai atal yr Hawl i Brynu olygu bod tai cymdeithasol newydd yn cael eu cwblhau. Dywedodd y Dirprwy Weinidog[11] y byddai hyn o ganlyniad i'r gofyniad bod awdurdod lleol, er mwyn cael atal yr Hawl i Brynu, yn nodi'r camau y byddai'n eu cymryd i gynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol yn yr ardal.

14. Roedd yr Aelodau yn pryderu ynghylch sawl elfen ariannol o'r mater hwn. Yn gyntaf, byddai atal yr Hawl i Brynu[12] yn sicrhau bod gan landlordiaid lif incwm am nifer o flynyddoedd, ond byddai gofyn iddynt hefyd dalu costau cynnal a chadw'r eiddo, yn ogystal â chostau rheoli. Byddai'r sefyllfa hon yn cael ei gwrthdroi pe bai eiddo yn cael ei werthu.

15. Byddai atal yr Hawl i Brynu hefyd yn arwain at golledion i landlordiaid cymdeithasol, o ran gwerthu eiddo ac o ran incwm. Dywedodd y Dirprwy

---

[6] Y Cofnod, p9, 6 Rhagfyr 2010, y Pwyllgor Cyllid
[7] Y Cofnod, p11, 6 Rhagfyr 2010, y Pwyllgor Cyllid
[8] Y Cofnod, p15, 6 Rhagfyr 2010, y Pwyllgor Cyllid
[9] Y Cofnod, p16, 6 Rhagfyr 2010, y Pwyllgor Cyllid
[10] Y Cofnod, p19, 6 Rhagfyr 2010, y Pwyllgor Cyllid
[11] Y Cofnod, p28, 6 Rhagfyr 2010, y Pwyllgor Cyllid
[12] Y Cofnod, p35, 6 Rhagfyr 2010, y Pwyllgor Cyllid

Weinidog[13] bod nifer yr eiddo a werthwyd wedi bod yn isel iawn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac y byddai'n amhosibl darogan y ffigurau ar gyfer y dyfodol yn sgil dylanwad ffactorau sydd y tu hwnt i reolaeth y Llywodraeth, fel argaeledd morgeisiau. Gwelwyd ansicrwydd hefyd mewn perthynas â'r gost i ddarparwyr cymdeithasol o fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru.

16. Mewn perthynas ag awdurdodau lleol, nododd Aelodau[14] fod y cytundeb "A New Understanding with Local Authorities" yn golygu na fyddai unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol yn cael eurhoi i awdurdodau lleol heb fod y partïon yn trafod goblygiadau ariannol gwneud hynny. Wrth ymateb i hyn, dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai'r costau ynghlwm â gwneud cais yn cael eu gwrthbwyso gan y ffaith na fyddai'n ofynnol ar awdurdodau lleol i weinyddu ceisiadau Hawl i Brynu. Dywedodd y Dirprwy Weinidog hefyd[15] y byddai awdurdodau lleol yn tynnu costau wrth ymgynghori â phobl yr effeithir arnynt gan gais. Fodd bynnag, nid oedd o'r farn y byddai costau ychwanegol sylweddol yn deillio o'r gwaith gweinyddol, er na chafodd y costau hyn eu meintoli.[16] Cadarnhaodd swyddogion[17] nad oedd modd iddynt feintoli'r gost o weinyddu cais o dan yr Hawl i Brynu.

17. Gofynnodd Aelodau gwestiynau[18] am y goblygiadau ariannol o ddefnyddio pwerau Gweinidogion i ymyrryd mewn sefyllfaoedd gwahanol. Dywedodd y Dirprwy Weinidog[19] ei bod yn gobeithio na fyddai byth angen i'r Gweinidogion ddefnyddio'r pwerau hyn, gan y byddai hyn yn adlewyrchu methiant o ran nodi problemau yn ddigon cynnar. Nododd Aelodau[20] bod nifer o ddatblygiadau annisgwyl wedi bod yn y marchnadoedd ariannol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a bod angen rhyw amcangyfrif o gostau tebygol a sut y byddent yn cael eu hariannu. Wrth ymateb, dywedodd y Dirprwy Weinidog[21] fod costau'r gyfundrefn rheoleiddio yn cael eu talu o gyllideb y Dirprwy Weinidog. Roedd y Dirprwy Weinidog o'r farn nad oedd dim na ellid ymdrin ag ef gan ddefnyddio ei chyllideb bresennol.

18. Gofynnodd Aelodau gwestiynau[22] am y costau pe bai Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn mynd i drafferthion. Dywedodd y Dirprwy

---

[13] Y Cofnod, p152, 6 Rhagfyr 2010, y Pwyllgor Cyllid
[14] Y Cofnod, p77, 6 Rhagfyr 2010, y Pwyllgor Cyllid
[15] Y Cofnod, p78, 6 Rhagfyr 2010, y Pwyllgor Cyllid
[16] Y Cofnod, p106, 6 Rhagfyr 2010, y Pwyllgor Cyllid
[17] Y Cofnod, p123, 6 Rhagfyr 2010, y Pwyllgor Cyllid
[18] Y Cofnod, p153, 6 Rhagfyr 2010, y Pwyllgor Cyllid
[19] Y Cofnod, p154, 6 Rhagfyr 2010, y Pwyllgor Cyllid
[20] Y Cofnod, p155, 6 Rhagfyr 2010, y Pwyllgor Cyllid
[21] Y Cofnod, p156, 6 Rhagfyr 2010, y Pwyllgor Cyllid
[22] Y Cofnod, p171, 6 Rhagfyr 2010, y Pwyllgor Cyllid

Weinidog[23] bod y newidiadau i'r gyfundrefn rheoleiddio yn rhoi gwell trosolwg i'r Llywodraeth ar y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, gan nodi bod hyn bron yn amhosibl o dan y gyfundrefn bresennol. Er bod yr Aelodau yn cydnabod[24] nad oedd yn debygol iawn y byddai Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn mynd i drafferthion, roeddent am wybod a gynhaliwyd asesiad risg. Dywedodd y swyddogion nad oeddent wedi cynnal asesiad manwl, ond roeddent yn cytuno y gallai'r gost fod yn sylweddol.

## Canlyniad

19. Nid oes llawer o wybodaeth yn y Memorandwm Esboniadol i'r Mesur arfaethedig hwn ynghylch y costau a fyddai'n deillio o'i weithredu. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn cydnabod bod rhai agweddau ar y Mesur arfaethedig yn anodd eu meintoli, ond mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y gwaith a wnaed hyd yn hyn wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddadansoddi pa un a fydd yn bosibl cyflawni'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r Mesur arfaethedig o fewn y cyllidebau presennol.

20. Yn amlwg, mae argaeledd adnoddau yn ffactor pwysig i'w drafod wrth ystyried deddfwriaeth, ond nid dyna'r unig un. Gan fod yr asesiad o gostau sy'n gysylltiedig â'r Mesur yn anghyflawn, gofynnir i'r Cynulliad gymeradwyo deddfwriaeth heb allu ystyried ei goblygiadau'n llawn. Golyga hyn hefyd fod perygl difrifol y bydd angen adnoddau pellach er mwyn mynd i'r afael â'r canlyniadau annisgwyl a allai ddeillio ohoni.

21. Yn ogystal â hyn, mae'r ffaith fod yr asesiad yn anghyflawn yn golygu nad yw'n bosibl cynnal archwiliad llawn o'r gwerth am arian y bydd y polisi hwn yn ei roi. Yn yr hinsawdd ariannol lem sydd ohoni, mae hwn yn ddiffyg difrifol.

22. Yn sgil y diffyg gwybodaeth ariannol a gafwyd, mae'n anodd i'r Pwyllgor Cyllid wneud sylwadau pellach ar y Mesur arfaethedig hwn.

**Angela Burns**
**Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid**

[23] Y Cofnod, p172, 6 Rhagfyr 2010, y Pwyllgor Cyllid
[24] Y Cofnod, p173, 6 Rhagfyr 2010, y Pwyllgor Cyllid